# TGAU BUSNES


## Pam dewis TGAU Busnes?

Mae'r fanyleb CBAC TGAU Busnes yn cyflwyno dysgwyr i fyd busnes, gan eu grymuso i ddatblygu fel unigolion mentrus sydd â meddyliau masnachol. Bydd dysgwyr yn cael cyfle i ddatblygu amrywiaeth eang o sgiliau, fydd yn eu galluogi i ddefnyddio gwybodaeth fusnes yn feirniadol, i ddatblygu dadleuon, i wneud penderfyniadau y gellir eu cyfiawnhau, a'u paratoi ar gyfer astudiaeth bellach a llwybrau gyrfaoedd.

## Beth fyddaf yn ei astudio?

Mae'r cynnwys yn cael ei gyflwyno mewn chwe maes testun clir a phenodol:

- Gweithgaredd busnes
- Dylanwadau ar fusnes
- Gweithrediadau busnes
- Cyllid
- Marchnata
- Adnoddau dynol



# TGAU BUSNES



## Pa sgiliau fyddaf yn eu datblygu?

Drwy astudio TGAU Busnes, mae cynnwys y pwnc yn galluogi dysgwyr i gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth at wahanol gyd-destunau busnes, yn cynnwys amrywiaeth o fusnesau o fentrau busnes bach i gwmnïau rhyngwladol mawr a busnesau sy'n gweithredu mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang. Mae'n ofynnol i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o sut mae'r cyd-destunau hyn yn effeithio ar ymddygiad busnes.

Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o rôl bwysig y busnesau hyn yn economi Cymru a gweddill y DU.

Disgwylir i ddysgwyr fod yn gyfarwydd â materion cyfredol ym myd busnes a datblygu dealltwriaeth o ddeinameg gweithgaredd busnes ac ystyried data sy'n gysylltiedig ag amgylchedd busnes Cymru. Dylai dysgwyr ymchwilio i'r byd busnes go iawn er mwyn datblygu dealltwriaeth o gyfleoedd a materion busnes cyfoes.

Disgwylir y bydd dysgwyr yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gynnwys y pwnc i wneud penderfyniadau busnes, yn cynnwys:

- natur gyd-ddibynnol gweithgaredd busnes, dylanwadau ar fusnes, gweithrediadau busnes, cyllid, marchnata ac adnoddau dynol; a sut mae'r gyd-ddibyniaeth hon yn tanategu penderfyniadau busnes
- sut mae gwahanol gyd-destunau busnes yn effeithio ar benderfyniadau busnes
- defnyddio ac ystyried cyfyngiadau data meintiol ac ansoddol wrth wneud penderfyniadau busnes

Bydd disgwyl i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gynnwys y pwnc i:

- ddefnyddio terminoleg er mwyn nodi ac esbonio gweithgaredd busnes
- cymhwyso cysyniadau busnes at gyd-destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd
- datblygu sgiliau datrys problemau a gwneud penderfyniadau sy'n berthnasol i fusnes
- ymchwilio, dadansoddi a gwerthuso cyfleoedd a materion busnes
- gwneud penderfyniadau y gellir eu cyfiawnhau gan ddefnyddio data ansoddol a meintiol yn cynnwys ei ddewis, dehongli, dadansoddi a gwerthuso, a chymhwyso sgiliau meintiol priodol

## Sut byddaf yn cael fy asesu?

**Bydd Uned 1: Byd Busnes yn cael ei hasesu trwy arholiad ysgrifenedig**

- **2 awr**
- **62.5% o'r cymhwyster**
- **100 marc**

Cymysgedd o atebion byr a chwestiynau strwythuredig yn seiliedig ar ddeunydd ysgogi yn ymdrin â holl gynnwys y fanyleb.

**Bydd Uned 2: Canfyddiadau Busnes yn cael ei hasesu trwy arholiad ysgrifenedig**

- **1 awr 30 munud**
- **37.5% o'r cymhwyster**
- **60 marc**

Cwestiynau ymateb i ddata yn ymdrin â holl gynnwys y fanyleb.

## Gyrfaoedd â TGAU Busnes

Mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar gynnwys pwnc a addysgir yn nodweddiadol ar gyfer cyfnod allweddol 3 ac mae'n gweithredu fel sail addas ar gyfer astudio Busnes naill ai ar lefel UG neu Safon Uwch.

Yn ogystal, mae'r fanyleb yn darparu cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

Dyma rai gyrfaoedd a all fod o ddiddordeb i'r rhai hynny sy'n astudio cymwysterau busnes:

- Cyllid
- Marchnata
- Adnoddau dynol
- Rheolaeth busnes